

Templed Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG).

Enw a theitl y person sy'n cwblhau'r aseiad hwn:	Josh Niderost, Rheolwr Polisi Anna Jones, Cyngorydd Nyrsio AP (Cymru) Chris Bell, Arbenigwr Datblygu Safonau
Uwch noddwr:	Anne Trotter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ymarfer Proffesiynol
Fersiwn a dyddiad cwblhau'r aseiad:	25 Mawrth 2024

Cam 1: Cynllunio

Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?	<p>Adolygiad Ymarfer Uwch 2023/24</p> <p>Nododd ein Strategaeth 2020-25 ymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth uwch y DU, gan gynnwys ystyried a oes angen rheoleiddio ychwanegol.</p> <p>Yn 2023-24 rydym wedi cynnal Cam 1 yr Adolygiad Ymarfer Uwch. Mae hyn wedi cynnwys cyfnod darganfod gydag ymchwil annibynnol a datblygu trywyddau ymholi allweddol (KLOEs).</p> <p>Mae'r gwaith hwn wedi'i lywio gan ymgysylltu allanol helaeth gan gynnwys sefydlu grŵp llywio annibynnol ar gyfer ymarfer uwch gyda chadeirydd annibynnol a grŵp cynghori cyhoeddus.</p> <p>Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys cyfarfod bwrdd crwn cyhoeddus o fewn y wlad yng Nghymru ag argaeledd cyfieithu i'r Gymraeg.</p> <p>Roedd Cam 1 yn gam casglu tystiolaeth sydd wedi ein galluogi i asesu a oes angen rheoleiddio ymarfer uwch ymhellach er mwyn diogelu'r cyhoedd.</p>
---	--

Mae nifer o opsiynau rheoleiddio posibl wedi cael eu harchwilio. Ochr yn ochr â hyn comisiynwyd cwmpasu gwerthusiad economaidd a dadansoddiad ymgysylltu cychwynnol.

Rydym wedi datblygu chwe opsiwn posibl, sy'n cynnwys: cadw'r sefyllfa bresennol; set wirfoddol o egwyddorion neu ddatganiad ar y cyd; asesu cymwysterau; ailddilysu; prawf cymhwysedd; neu osod safonau addysg.

Sefydlwyd y grŵp llywio annibynnol i gefnogi'r gwaith o gydgyhyrchu ac adolygu'r holl argymhellion drafft ar gyfer y posibilrwydd o reoleiddio arfer uwch, datblygu consensws a rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru.

Bydd Cam 1 yn cloi ag argymhellion i'r Cyngor ynghylch a ystyrir bod angen rheoleiddio arfer uwch, a pha opsiynau yr ystyrir eu bod yn fwyaf priodol.

Canfu consensws mwyafrif y grŵp llywio fod y risgiau sy'n hysbys ar hyn o bryd ynghyd â'r budd a ragwelir i bobl yn ddigon i wneud argymhelliad i'n Bwrdd Gweithredol symud ymlaen i gam 2 o'r adolygiad gyda'r nod o gyflwyno rheoleiddio ychwanegol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn rolau AP drwy amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio.

Roedd y dulliau hyn yn cynnwys gosod safonau addysg; ymgorffori ymarfer uwch mewn ail-ddilysu; a dull cydweithredol o ddatblygu fframwaith arfer uwch unedig ar gyfer y DU gyfan, gan gynnwys diffinio arfer uwch trwy ddatganiad ar y cyd.

Bydd Cam 2 yn cynnwys ystyriaeth fanylach o'r opsiynau hyn a ffefrir, gan gynnwys ymgysylltu pellach â'r cyhoedd ac ymarfer ymgynghori ffurfiol.

Mae ein gwaith wedi'i lywio gan egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir, sy'n golygu bod rhaid i unrhyw ymyriad rheoleiddiol fod yn gymesur, yn gyson, wedi'i dargedu, yn dryloyw, yn atebol ac yn ystwyth.

Yn benodol, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion canlynol fel rhan o'r adolygiad o ymarfer uwch:

- Hyrwyddo diogelu'r cyhoedd a gwella hyder y cyhoedd.
- Bod yn seiliedig ar Strategaeth 2020-25 yr NMC.
- Cynnal gwerthoedd yr NMC o 'deg, caredig, uchelgeisiol, a chydweithredol' ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cael eu cydgynhyrchu ag amrywiaeth o randdeiliaid.
- Bod yn addas ar gyfer nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr a bod yn berthnasol ar draws pedair gwlad y DU.
- Alinio ag egwyddorion rheoleiddio 'cyffyrddiad cywir'.
- Adlewyrchu tystiolaeth gadarn, gyfoes.
- Bod yn uchelgeisiol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.
- Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Byddwn ni'n cyflwyno ein hopsiynau rheoleiddio a argymhellir i'r Cyngor ar 27 Mawrth 2024. Y rhain yw:

- Symud ymlaen i reoleiddio ymarfer uwch ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth ymhellach, gan ystyried goblygiadau penodol i'r ddau broffesiwn.
- Datblygu safonau hyfedredd ar gyfer ymarfer lefel uwch a safonau rhaglenni cysylltiedig.
- Mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu fframwaith arfer uwch ar gyfer y DU gyfan sy'n ymgorffori safbwynt a rennir sy'n diffinio arfer lefel uwch.
- Sicrhau bod gofynion ymarfer lefel uwch yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau Ail-ddilysu a Chod ehangach sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer 2025/26.

Gweithlu Ymarfer Uwch – Cymru

Mae'n anodd canfod union nifer yr uwch ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru oherwydd amrywiaeth mewn diffiniadau a rolau.

Fodd bynnag, nododd dadansoddiad Ymddiriedolaeth Nuffield o hysbysebion swyddi yng Nghymru o fis Hydref 2022 fod llai na 2 y cant o rolau swyddi ar lefel uwch. Nid oedd hyn yn gwahaniaethu rhwng rolau mewn nyrsio neu fydwreigiaeth.

Nododd yr [adroddiad cofrestru](#) canol blwyddyn diweddaraf (Medi 2023) fod 40,127 o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr yng Nghymru, gan gynnwys 37,785 o nyrsys a 1,941 o fydwragedd.

Gan ddefnyddio ffigur 2 y cant Ymddiriedolaeth Nuffield, gallwn ni dybio bod oddeutu 803 o weithwyr ymarfer uwch nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd tangofnodi.

Bydd angen i unrhyw ddull rheoleiddio newydd o ymdrin ag ymarfer uwch yng Nghymru sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i gefnogi gweithwyr proffesiynol presennol ac yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.

Nid oes gennym ddata ar nifer gweithwyr proffesiynol yr NMC sy'n siarad Cymraeg, gan nad yw hyn yn rhywbeth rydym yn ei gasglu. Mae ein gofynion ar gyfer cofrestru yn cynnwys hyfedredd yn y Saesneg yn unig.

Fodd bynnag, mae Safon 20 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg newydd (WLSR) yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu fersiwn Gymraeg o ffurflenni cais i ymuno â'r gofrestr. Rydym wedi cael estyniad i gydymffurfio â'r safon hon. Mae gennym tan 31 Rhagfyr 2025 i gydymffurfio â'r gofyniad hwn, ac eithrio llwybrau cofrestru ar gyfer y rheini sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU. Felly, yn y dyfodol byddwn ni'n gallu cynhyrchu data ar nifer y gweithwyr proffesiynol y mae'n debygol y bydd yn well ganddynt gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dibynnu ar sut y bydd ymarfer uwch yn cael ei reoleiddio yn y dyfodol, efallai y bydd angen i ni gael fersiwn Gymraeg o broses ymgeisio i anodi'r gofrestr gyda chymhwyster uwch ymarferydd.

Tirwedd polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi polisi [Cymraeg 2050](#) i sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn cynnwys egwyddor 'cynnig rhagweithiol' o gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys yn y sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae'n nodi bod gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 'y potensial i wneud cyfraniad gwerthfawr at ein nod' (t54) o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

[Mwy na geiriau: Cynllun Pum Mlynedd 2022-27](#) yw'r fframwaith strategol ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ystod o gamau gweithredu ar draws thema gyffredinol Diwylliant ac Arweinyddiaeth a thair thema arall, sef: cynllunio a pholisïau iaith Gymraeg gan gynnwys data; Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol; a Rhannu arfer gorau a dull galluogi.

Mae [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (Hydref 2020) Llywodraeth Cymru yn nodi strategaeth gweithlu hyd at 2030. Un o'r pedwar uchelgais yn y ddogfen hon yw 'Bydd gennym weithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gweithlu, yr iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol' (t11).

Mae hefyd yn anelu at 'ddeall, rhagweld a chynllunio i ddiwallu anghenion Cymraeg myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gweithlu ac yn y pen draw cleifion a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth ledled Cymru...' (t13).

Mae [Cynllun Gweithredu'r Gweithlu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru](#) (Ionawr 2023) yn nodi bod 'cyfle enfawr i sefydliadau'r GIG ddod yn esiamplau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg rhagweithiol' (t29). Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i gasglu data ar sgiliau iaith staff iechyd a gofal cymdeithasol; cyflawni gweithredoedd [Mwy na Geiriau](#); gweithio gydag

	<p>Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) i nodi bylchau sgiliau'r gweithlu er mwyn gwella hyder wrth siarad Cymraeg; a chynhyrchu cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a fydd yn egluro pa mor bwysig yw Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau a gweithio i sicrhau cwblhau gorfodol.</p> <p>Mae GIG Cymru wedi datblygu Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Datblygedig, Uwch ac Ymgynghorol. Mae hyn er mwyn sicrhau datblygu, gweithredu a gwerthuso llwyddiannus o rolau ymarfer uwch o fewn GIG Cymru yn ogystal â threfniadau llywodraethu priodol i gefnogi ymarfer lefel uwch.</p> <p>Perthynas â'r Iaith Gymraeg</p> <p>Mae gan y posibilrwydd o reoleiddio arfer uwch oblygiadau i Gymru a'r Gymraeg, oherwydd bod yr NMC yn rheoleiddiwr ar gyfer y DU gyfan. Byddem yn ceisio dilyn yr un ymagwedd at ymarfer uwch yng Nghymru ag yng ngwledydd eraill y DU. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i ni gydymffurfio â'r WLSR a ddaeth i rym ar 6 Rhagfyr 2023 a deddfwriaeth berthnasol arall yn ymwneud â'r Gymraeg.</p>
<p>Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu niweidiol) ar y Gymraeg rydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?</p>	<p>Gallai unrhyw ymagwedd reoleiddiol newydd at ymarfer uwch gael effaith ar aelodau o'r cyhoedd /pobl sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Gall ymarfer uwch a'r ffyrdd y y mae ymarferwyr uwch yn ymarfer gael effeithiau cadarnhaol i'r cyhoedd, gan gynnwys mynediad haws at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, parhad gofal a mwy o hyblygrwydd. Mae mwy o reoleiddio'n debygol o wreiddio'r rôl hon ymhellach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chynyddu ei amlygrwydd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.</p> <p>Mae angen i ni sicrhau bod unigolion yng Nghymru sy'n siaradwyr Cymraeg yn gallu elwa'n llawn ar y datblygiadau hyn drwy sicrhau bod y gweithlu ymarfer uwch yng Nghymru yn cael cyfleoedd i fanteisio ar opsiynau addysg ymarfer uwch ac ymgymryd â'u dysgu ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>

	<p>Bydd dull rheoleiddio newydd yn effeithio ar uwch ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg a gweithwyr proffesiynol presennol ac yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai dull rheoleiddio newydd alluogi dilyniant gyrfa a lefelau cadw a chefnogi gwaith amlddisgyblaethol. Mae angen i ni sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael cyfleoedd i ymgymryd â dysgu academiaidd ac ymarfer yn Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn Gymraeg ar lefel uwch.</p>
--	---

Cam 2: Casglu Data a Thystiolaeth

<p>Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori ydych chi wedi'u defnyddio i ystyried sut y gallai'r polisi hwn effeithio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i unigolion/cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg • peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>Rhowch ddolen I unrhyw ddogfennau perthnasol.</p> <p>Disgrifiwch gyda phwy y gwnaethoch ymgysylltu a'r canlyniadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiad ymgysylltu bwrdd crwn cyhoeddus wyneb yn wyneb yng Nghymru ag argaeledd cyfieithu i'r Gymraeg (5 Rhagfyr 2023). • Cyfathrebu ar gyfer y digwyddiad hwn yn cael ei anfon yn Gymraeg ac yn Saesneg. • Crynodeb o ganfyddiadau Ymgysylltu Cam 1 a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg. • Cymorth prosiect gan gynghorydd ymarfer uwch sy'n siarad Cymraeg.
--	--

<p>Pa ymchwil, data neu ymgynghori ychwanegol sydd ei angen i lenwi unrhyw fylchau o ran deall effeithiau'r polisi?</p>	<p>Roedd Cam 1 yr adolygiad Ymarfer Uwch yn gyfnod archwiliadol. Unwaith y cawn benderfyniad gan y Cyngor (Mawrth 2024) gallwn ni gynnal ymchwil ac ymgysylltu manylach i ddeall effeithiau ein cynigion ar siaradwyr Cymraeg.</p>
--	--

Cam 3. Aseiad Effaith (IA)

<p>Effeithiau/dylanwadau cadarnhaol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg 	<p>Effaith uniongyrchol</p>	<p>Gallai datblygu dull newydd o reoleiddio arfer uwch ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Er enghraifft, gallai rhaglenni addysg ymarfer uwch newydd a</p>
--	-----------------------------	---

<ul style="list-style-type: none"> • peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>Fel man cychwyn, ceisiwch nodi o leiaf dair effaith gadarnhaol.</p>		<p>reoleiddir gan yr NMC ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer darparu dysgu academaidd a dysgu ymarfer yn Gymraeg ac ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl yn Gymraeg.</p> <p>Mae ein rheoleiddio presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg sicrhau bod rhaglenni a ddarperir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, ac felly'n ystyried cyfleoedd i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg gael addysg yn y Gymraeg. Er enghraifft, gweler paragraff 2.11 yn ein Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru.</p> <p>Byddai'r un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i raglenni addysg ymarfer uwch rheoleiddiedig newydd a allai felly ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer darparu dysgu academaidd a dysgu ymarfer yn Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl yn Gymraeg.</p> <p>O ran yr opsiwn ail-ddilysu posibl, rydym eisoes yn galluogi cyflwyniadau ail-ddilysu yn Gymraeg ar gais. Er enghraifft, gweler paragraff 16: 'Yn ôl y gyfraith, gall nyrsys a bydwagedd cofrestredig gadw eu portffolio a'u tystiolaeth ail-ddilysu yn Gymraeg os dymunant. Gallant ofyn ymlaen llaw i'w trafodaeth fyfyrion a'u cadarnhad gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Os na all y rheolwr llinell a enwir hwyluso hyn, yna rhaid i'r rheolwr llinell nodi dirprwy priodol.'</p> <p>Mae ymchwil yn dangos bod gofal sy'n cyd-fynd ag iaith yn arwain at ganlyniadau gwell (Diamond et al, 2019). Mae astudiaethau eraill yn</p>
--	--	---

		<p>cyfeirio at rwystrau iaith sy'n gohirio ac yn peryglu mynediad at driniaeth ac ansawdd gofal a sut y gall cynnig gwasanaethau gofal iechyd mewn ieithoedd lleiafrifol wella darpariaeth gofal iechyd (Roberts et al, 2019). Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd hanfodol darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg.</p>
	<p>Effaith anuniongyrchol</p>	<p>Gallai hyn fod o fudd i'r cyhoedd/pobl sy'n siarad Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys safoni rôl ymarfer uwch a disgwyliadau gofal.</p> <p>Gallai hefyd gynyddu mynediad a darparu mynediad mwy hyblyg i'r cyhoedd/pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg. Dylai hefyd wella trefniadau llywodraethu a sicrwydd systemau a gwella ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn rolau ymarfer uwch.</p>
<p>Effeithiau/effeithiau niweidiol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg • peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. <p>Fel man cychwyn, ceisiwch nodi o leiaf dair effaith niweidiol.</p>	<p>Effaith uniongyrchol</p>	<p>Mae sawl opsiwn rheoleiddio posibl lle byddai angen i ni ystyried yn ofalus effaith yr opsiynau hyn ar y Gymraeg.</p> <p>Yn gyntaf, pe byddem yn datblygu opsiwn prawf cymhwysedd (ToC) byddai angen i ni ystyried a fyddai'n ymarferol i hyn gael ei gyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar hyn o bryd, dim ond yn Saesneg y mae ein ToCs ar gael. Gallem edrych i weithio gyda phartner profi i sicrhau bod mwy o opsiynau ar gyfer siaradwyr y Gymraeg.</p> <p>Yn ail, pe byddem yn datblygu opsiwn asesu cymwysterau byddai angen i ni ystyried pa opsiynau fyddai ar gael i siaradwyr y</p>

		<p>Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes opsiwn asesu cymwysterau yng Nghymru nac yn y Gymraeg.</p> <p>Yn drydydd, os byddwn ni'n penderfynu rheoleiddio arfer uwch, bydd angen i ni ddatblygu proses wahanol i symud uwch ymarferwyr presennol i'r drefn reoleiddio newydd. Gallem geisio galluogi'r broses hon i gael ei chynnal yn Gymraeg os yw gweithiwr proffesiynol yn dymuno gwneud hynny.</p>
	<p>Effaith anuniongyrchol</p>	<p>Gallai effeithiau anuniongyrchol yr effeithiau uniongyrchol posibl uchod fod yn ostyngiad yn y cyfleoedd i uwch ymarferwyr presennol ac yn y dyfodol sy'n gyfarwydd â'r Gymraeg ymuno â chyfundrefnau rheoleiddio newydd a pharhau i gyflawni eu rôl. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Effeithiau/dylanwadau niwtral ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg • peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. 	<p>Effaith uniongyrchol</p>	<p>Amherthnasol</p>
	<p>Effaith anuniongyrchol</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, Cymraeg yn y gwaith wedi'i chynyddu:</p>	<p>Bydd sefydlu dull newydd o reoleiddio ymarfer uwch yn rhoi cyfleoedd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Er enghraifft, gallai rheoleiddio rolau ymarfer uwch yng Nghymru gefnogi ymhellach y gwaith o ddarparu rhaglenni AP yn y Gymraeg. Bydd hyn yn gwreiddio</p>	

	cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac i aelodau'r cyhoedd gael mynediad at wasanaethau lefel uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.	
Tystiolaeth/data a ddefnyddir, gan gynnwys proffil demograffig wrth ystyried yr effeithiau/dylanwadau:	<p>Nid yw'r NMC yn casglu data ar nifer y gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sy'n siarad Cymraeg, yn ymarfer yn Gymraeg ac eisiau ymgysylltu â'r NMC yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r WLSRs yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr yr NMC, ond nid gweithwyr proffesiynol sydd ar y gofrestr. Fodd bynnag, rydym yn argymhell ein bod yn casglu'r wybodaeth hon (efallai mewn partneriaeth â GIG Cymru, cyflogwyr eraill a/neu AaGIC) er mwyn deall i ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol yr NMC yng Nghymru yn defnyddio'r Gymraeg ac i ba raddau y dylem fynd y tu hwnt i'n gofynion cyfreithiol sylfaenol. i ddiwallu anghenion gweithwyr proffesiynol yr NMC sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.</p>	
Beth yw'r effaith debygol gyffredinol a ragwelir ar yr iaith Gymraeg os caiff y penderfyniad polisi hwn ei symud ymlaen yn seiliedig ar yr asesiad effaith?	Cadarnhaol	X
	Niweidiol	
	Niwtral	
	Anhysbys	
Penderfyniad yn dilyn IA	1. Dim newid mawr	X
	2. Addasu'r polisi i wella effeithiau	
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	
	4. Stopio a dileu'r polisi	

Os atebir 2, 3, neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Manylion mesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/opsiynau amgen i leihau effeithiau niweidiol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol:

Os yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi am eu gofyn i randdeiliaid am yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor (Mawrth 2024) rydym yn disgwyl cynnal Cam 2 yr Adolygiad Ymarfer Uwch.

Byddwn ni'n sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd i bobl sy'n siarad Cymraeg ymgysylltu â gwaith prosiect yn y dyfodol ac ymateb iddo. Er enghraifft, bydd angen i ni gydymffurfio â'r WLSRs mewn perthynas ag ymgysylltu a chyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru ac ymgynghoriadau (gan gynnwys cyhoeddi dogfennau). Rydym yn bwriadu trafod hyn yn gynnar ym mis Ebrill 2024. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r allbynnau isod yn Gymraeg.

- Hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori neu ymgysylltu pellach sy'n benodol i Gymru. Byddai hyn yn cynnwys argaeledd gwasanaethau cyfieithu yn y digwyddiadau hyn.
- Y ddogfen ymgynghori a'r arolwg ei hun yn y dyfodol. Er enghraifft, rhaid i unrhyw gwestiynau ymgynghori a dogfennau ategol lle mae'r gynulleidfa arfaethedig yn cynnwys unigolyn yng Nghymru, a'r ymgynghoriad yn ymwneud â gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, gael eu cynhyrchu yn Gymraeg (gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen).
- Gwaith a wneir gan asiantaethau ymchwil ar ran yr NMC fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r NMC yn gyfrifol am gydymffurfio â'r WLSRs, a dylem gymryd camau i sicrhau ei bod yn ofynnol yn contractiol i asiantaethau ymchwil (neu drydydd partïon eraill) fodloni'r gofynion. Rhaid i asiantaethau a benodir gan yr NMC gydymffurfio â'r WLSRs neu bernir bod yr NMC wedi methu â chydymffurfio â'r safonau perthnasol.
- Dylid cyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg os ydym wedi ymgynghori yn Gymraeg. Byddwn ni'n cyhoeddi'r dogfennau hyn yn Gymraeg hyd yn oed os nad ydym wedi cael unrhyw ymatebion i ymgynghoriad yn Gymraeg oherwydd gallai unrhyw unigolyn yng Nghymru ddarllen y canfyddiadau.
- Unrhyw newidiadau rheoleiddio sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n deillio o'r adolygiad. Er enghraifft, bydd angen i ni gyhoeddi unrhyw safonau ymarfer uwch yn y Gymraeg a'r

Saesneg (ar yr un pryd) oherwydd eu bod yn ymwneud â'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a gallai'r gynulleidfa gynnwys unigolion yng Nghymru (ac mae hyn yn gyson â'n hymagwedd bresennol at gyhoeddi safonau eraill).

- Amseriad cyflwyno'r allbynnau. Er enghraifft, rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau ar yr un pryd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gall cydymffurfio â'r WLSRs arwain at amserlenni ychydig yn hwy a chostau ychwanegol. Bydd angen i'r gyllideb Ymarfer Uwch dalu'r costau. Dylid ystyried unrhyw gostau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac amserlenni a'u cynnwys mewn penderfyniadau cyllidebu a chynllunio cyn gynted â phosibl.

Cam 4: Ar ôl ymgynghori a pharatoi ar gyfer cyhoeddi, monitro a gwerthuso

<p>Yn dilyn ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a godwyd?</p>	<p>Amherthnasol ar hyn o bryd. Nid ydym eto wedi cytuno ar unrhyw newidiadau i'r broses o reoleiddio arfer uwch ym maes nyrsio a bydwreigiaeth nac wedi ymgynghori arnynt wedi hynny.</p>
<p>Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus yn ystod y broses o roi'r penderfyniad polisi ar waith?</p>	<p>Mae hon yn ddogfen fyw. Byddwn ni'n diweddarau'r ddogfen hon fel rhan o Gam 2 yr Adolygiad Ymarfer Uwch (2024/25).</p>
<p>Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg, ac ati:</p>	
<p>Dyddiad adolygu arfaethedig:</p>	<p>Haf 2024.</p>